**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mai 2023 yn darparu gwybodaeth o ran Tîm Ymyrraeth a Chymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), gwaith a chynnydd yn erbyn amcanion a nodwyd yn y gyfundrefn mesurau arbennig, a'r amserlenni ar gyfer gwaith i edrych ar wella atebolrwydd ac adolygu ac adnewyddu'r fframwaith ymyrraeth ac uwchgyfeirio. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar y ddau bwynt olaf ac edrychwn ymlaen at dderbyn y diweddariadau cyntaf ym mis Tachwedd 2023.

Trafododd ein Pwyllgorau eich ymateb yn ein cyfarfod cydamserol ar 25 Mai 2023 wrth i ni ystyried a fyddem am ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol yn y Bwrdd Iechyd, ac, os felly, sut.

Rydym wedi cytuno ar y nodau canlynol ar gyfer ein gwaith:

- Cydweithio lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.
- I waith craffu fod yn gymesur, gyda ffocws iddo ac wedi'i amseru'n briodol i ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu neu wrthdaro â phrosesau eraill sy'n mynd rhagddynt.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng craffu cyfreithlon a chydnabod pan mae pethau'n gweithio'n dda.

Er mwyn gweithredu'r nodau hyn, rydym wedi cytuno i gynnal brîff gwylio gweithredol o ran y sefyllfa yn y Bwrdd Iechyd. Fel cam cyntaf, rydym wedi cytuno i ofyn am ragor o wybodaeth gennych am y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd dros dro y Bwrdd Iechyd i ofyn am ragor o wybodaeth. Pan fyddwn wedi cael y cyfle i ystyried y wybodaeth hon, byddwn yn ystyried a ydym am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar a/neu ymweld â Gogledd Cymru i archwilio'r materion hyn ymhellach ac, os felly, pryd.

Byddem yn croesawu ymateb erbyn 18 Awst 2023.

Yn gywir

| | |
|---|---|
| Russell George AS<br>Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Mark Isherwood AS<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus |

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ar ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ystyried y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ar 25 Mai 2023 a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso yn ei llythyr ar 10 Mai 2023, byddem yn croesawu gwybodaeth am y materion isod, Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 18 Awst 2023.

### Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru

1. Beth fydd strwythur a phroses Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru / Weinidogol o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig.

### Rôl y tîm Ymyrraeth a Chymorth

2. Pa rôl y bydd y Tîm Ymyrraeth a Chymorth yn ei chwarae wrth adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd.

### Penodi aelodau i'r Bwrdd dros dro

Mae rôl aelodau'r Bwrdd annibynnol yn hanfodol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ymateb. Nodwn o bapurau Bwrdd y Bwrdd Iechyd o 25 Mai 2023 (papur 7) fod y chwe aelod annibynnol interim dros dro a benodwyd yn uniongyrchol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2023 wedi'u penodi tan 29 Chwefror 2024. Nodwn fod adroddiadau diweddar yn y cyfryngau wedi codi cwestiynau am benodiad ac ymddiswyddiad dilynol un aelod annibynnol dros dro, gan gynnwys cwestiynau ynghylch pryd y daeth cyflogaeth yr unigolyn hwnnw gyda'r Bwrdd Iechyd i ben.

3. Rhowch wybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i benodi'r aelodau annibynnol dros dro. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- Sut y canfu Llywodraeth Cymru ddarpar aelodau i'w penodi, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd i ganfod addasrwydd y rhai a benodwyd i'r rolau.

- Pa brosesau sydd ar waith i nodi unrhyw fuddiannau neu wrthdaro buddiannau perthnasol a allai effeithio ar benodiad aelodau annibynnol dros dro, eu gallu i gyflawni'r rôl, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni'r rôl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro neu fuddiannau o'r fath sy'n anghydnaws â phenodiad, a/neu dryloywder wrth gofrestru gwrthdaro buddiannau nad ydynt yn atal y penodiad ond sydd, serch hynny, yn berthnasol i allu aelodau'r Bwrdd i gyflawni, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni, eu rôl.

- Pa gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cymhwysedd yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.
- Pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd yn rhan o'r broses benodi.
- Unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei hystyried yn berthnasol neu rydych o’r farn fyddai'n ddefnyddiol i ni mewn perthynas â'r penodiadau hyn.

4. Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad aelodau dros dro y Bwrdd yn ystod cyfnod eu penodiad.
5. Amlinellwch pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer sicrhau penodiadau parhaol i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau’r Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau annibynnol y bwrdd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr amserlenni, dull recriwtio arfaethedig, ac unrhyw feini prawf penodol sy'n benodol i rôl neu feini prawf personol y disgwylir i ymgeiswyr eu dangos.

## Penodiadau gweithredol

6. Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn croesawu gwybodaeth am y broses a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer recriwtio penodiad o bwys i rôl y Prif Weithredwr yn y Bwrdd Iechyd.